



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Amserlen cyflwyno safonau i sefydliadau cylchoedd 1-4

Mae'r broses o gyflwyno safonau'n digwydd mewn cyfres o gylchoedd. Bydd Gweinidogion Cymru yn llunio ac yn pennu safonau mewn rheoliadau yn raddol i'r sefydliadau o fewn y cylchoedd hyn. Wedi i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r safonau sydd wedi eu pennu mewn rheoliadau, mae'n awdurdodi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r personau sydd wedi'u cynnwys o fewn y rheoliadau hynny.

Gellir cael mwy o wybodaeth am yn ogystal â chopïau o'r holl hysbysiadau cydymffurfio wrth glicio [yma](#).

- Mae 26 sefydliad yng Nghylch 1, sef Gweinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.
- Mae 119 o sefydliadau yng Nghylch 2, gan gynnwys byrddau iechyd, colegau a phrifysgolion a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- Mae'r 64 sefydliad yng Nghylch 3 yn cynnwys darparwyr tai cymdeithasol, adrannau Llywodraeth y DU, cwmnïau dŵr, Grŵp y Post Brenhinol a'r Swyddfa Bost.
- Mae 318 o sefydliadau yng Nghylch 4, gan gynnwys cyflenwyr nwy a thrydan, gwasanaethau rheilffyrdd a chwmnïoedd bysiau.

Cliciwch ar y [ddolen](#) hon i weld rhestr lawn o'r sefydliadau yn y pedwar cylch cyntaf.

Amserlen cyflwyno safonau i sefydliadau Cylch 1

Cafodd [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru ym Mawrth 2015 gan awdurdodi'r Comisiynydd i osod hysbysiadau cydymffurfio ar y 26 sefydliad o fewn cylch 1. Yn dilyn proses o ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft (o dan adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, cafodd hysbysiadau cydymffurfio terfynol (o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) eu dyroddi i'r 26 sefydliad ar 30 Medi 2015 a daethant i rym ar 30 Mawrth 2016.

Amserlen cyflwyno safonau i sefydliadau Cylch 2

Mae'r broses o lunio a phennu safonau mewn rheoliadau ar gyfer sefydliadau cylch 2 yn digwydd yn raddol, yn seiliedig i raddau helaeth ar sectorau.

Cafodd [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 2\) 2016](#) eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn Chwefror 2016 gan awdurdodi'r Comisiynydd i osod hysbysiadau cydymffurfio ar 32 o sefydliadau. Gellir gweld rhestr lawn o'r cyrff hyn o fewn Atodlen 6 y rheoliadau.

Yn dilyn proses o ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft (o dan adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), cafodd hysbysiadau cydymffurfio terfynol (o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) eu dyroddi i 30 sefydliad o fewn y rheoliadau ar 25 Gorffennaf 2016 a daethant i rym ar 25 Ionawr 2017.

Cafodd [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 4\) 2016](#) eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru ym Mawrth 2016 gan awdurdodi'r Comisiynydd i osod hysbysiadau cydymffurfio ar y canlynol:

- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Tribiwnlys Adolygiad Iechyd Meddwl Cymru
- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
- Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru
- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
- Tribiwnlys Prisio Cymru

Cafodd [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 5\) 2016](#) eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru ym Mawrth 2016 gan awdurdodi'r Comisiynydd i osod hysbysiadau cydymffurfio ar y canlynol:

- Awdurdodau Tân ac Achub
- Awdurdodau'r Heddlu
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru
- Prif Gwnstablaiid yr Heddlu yng Nghymru

Gellir gweld rhestr lawn o'r cyrff hyn o fewn Atodlen 6 y rheoliadau.

Yn dilyn proses o ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft (o dan adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), cafodd hysbysiadau cydymffurfio terfynol (o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) eu dyroddi i 20 sefydliad o fewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) a (Rhif 5) ynghyd â 2 sefydliad o Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) ar 30 Medi 2016. Daethant i rym ar 30 Mawrth 2017.

Cafodd [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 6\) 2017](#) eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru yn Chwefror 2017 gan awdurdodi'r Comisiynydd i osod hysbysiadau cydymffurfio ar y canlynol:

- Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig;
- Corfforaethau a sefydliadau Addysg Bellach
- Corfforaethau a sefydliadau Addysg Uwch
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Gellir gweld rhestr lawn o'r sefydliadau hyn o fewn Atodlen 6 y rheoliadau.

Yn dilyn proses o ymgynghori ar hysbysiadau cydymffurfio drafft (o dan adran 47 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), cafodd hysbysiadau cydymffurfio terfynol (o dan adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) eu dyroddi i 25 o sefydliadau ar 29 Medi 2017. Daethant i rym ar 1 Ebrill 2018.

Cafodd [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#) eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru ym mis Mawrth 2018 gan awdurdodi'r Comisiynydd i osod hysbysiadau cydymffurfio ar y canlynol:

- Byrddau Iechyd Lleol
- Cyngorau Iechyd Cymuned
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru
- Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru.

Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn golygu bod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i ychwanegu i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 gan awdurdodi'r Comisiynydd i osod hysbysiad cydymffurfio arnynt hwy hefyd.

Mae bwriad ymgynghori gyda'r sefydliadau yma yn ystod Haf 2018 gan ddyroddi hysbysiadau cydymffurfio terfynol yn ystod yr Hydref.

Ymysg y sefydliadau sydd yn weddill o Gylch 2 y mae sefydliadau sy'n derbyn £400,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol.

Amserlen cyflwyno safonau i sefydliadau Cylch 3

Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad safonau i'r sefydliadau o fewn Cylch 3 sy'n cynnwys darparwyr tai cymdeithasol, adrannau Llywodraeth y DU, cwmnïau dŵr, Grŵp y Post Brenhinol a'r Swyddfa Bost rhwng 26 Mai a 18 Awst 2015. Cyflwynwyd yr adroddiadau safonau i Weinidogion Cymru yn Hydref a Tachwedd 2015.

Amserlen cyflwyno safonau i sefydliadau Cylch 4

Cynhaliodd y Comisiynydd ymchwiliad safonau i'r sefydliadau o fewn Cylch 4 sy'n cynnwys y canlynol:

- Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig i reilffyrdd yng Nghymru [Network Rail] (rhwng 31 Mawrth a 30 Mehefin 2016)
- Personau neilltuedig sy'n darparu i'r cyhoedd wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr (rhwng 31 Mawrth a 30 Mehefin 2016)
- Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau bysiau i'r cyhoedd (rhwng 31 Mawrth a 30 Mehefin 2016)
- Personau neilltuedig sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â nwy a thrydan yng Nghymru (rhwng 16 Gorffennaf a 1 Tachwedd 2016)
- Personau neilltuedig sy'n gyflenwyr nwy trwyddedig (rhwng 14 Gorffennaf a 6 Hydref 2016)
- Personau neilltuedig sy'n gyflenwyr trydan trwyddedig (rhwng 16 Gorffennaf a 6 Hydref 2016)

Cynhaliwyd yr ymchwiliadau hyn i sectorau cyfan yn hytrach nac i gyrff unigol ar wahân i'r ymchwiliad i Network Rail. Er mwyn gwneud hyn, cysylltwyd gyda chwmnïoedd oedd yn gweithredu yng Nghymru yn unigol ond paratowyd yr adroddiadau fesul sector. Roedd 125 o gwmnïoedd bysiau yn ran o'r ymchwiliad i

ddarparwyr gwasanaeth bysiau. Roedd 4 cwmni yn ran o'r ymchwiliad safonau i ddarparwyr gwasanaethau rheilffyrdd. Cyflwynwyd yr adroddiadau i'r sectorau trafnidiaeth i Weinidogion Cymru ar 31 Hydref 2016.

Roedd 189 o sefydliadau yn ran o'r ymchwiliadau a gynhaliwyd i'r sectorau ynni. Cyflwynwyd yr adroddiadau i Weinidogion Cymru ar 24 Chwefror 2017.

Cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes mewn datganiad llafar i Aelodau'r Cynulliad ar 5 Mehefin, 2018 na fydd yn cyflwyno mwy o Safonau'r Gymraeg ar gyfer sectorau eraill am y tro. Yn hytrach, bydd yn canolbwyntio eu hadnoddau ar ddatblygu'r Bil Gymraeg newydd.